| **Thema** | **Fframwaith ABCH**<br>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr: | **Y Fagloriaeth – syniadau ar gyfer gweithgareddau neu themâu ymchwiliad personol wedi eu sylfaenu ar y rhaglen RhGCYCG** | **Gwersi y Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan** |
| --- | --- | --- | --- |
| **Datblygu Meddwl**<br> | • ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi<br>• dadansoddi gwybodaeth a syniadau er mwyn<br>asesu tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd<br>• ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol. | **CEB**<br>• Cyflwyniad ar effaith diodydd egni ar bobl ifanc ar lefel leol a chenedlaethol, e.e. yn eich ysgol, yng Nghymru, ac yn rhyngwladol.<br><br>**ABCh**<br>• Gwagle personol – darganfod eich gwerthoedd. Beth yw ymddygiad derbyniol (cysylltu a'r gwersi ar 'Ecsploetio Rhywiol – Twyll Peryglus' a 'Na yw Na!') | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r gymuned** – gwers – Achub Fi!<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers COW<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers -Hawliau a Chyfrifoldebau<br>**Diogelwch** – Gwers – Twyll Peryglus<br>**Diogelwch** – Gwers – Cydsynio Rhywiol –'Na yw Na'<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – gwers - Cyfraith Cyffuriau<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – Gwers – Dwbwl Trwbwl |
| **Datblygu Cyfathrebu**<br> | • wrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol<br>• cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol<br>• gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol. | **Ymchwiliad Unigol**<br>**CEB**<br>• Cyflwyniad ar destun penodol e.e. Hawliau pobl ifanc<br>**ABCh**<br>• Trafodaeth ar ddiogelwch personol.<br>**AGG**<br>• Taflen wybodaeth ar faterion iechyd mewn gweithle, effaith gor-yfed.<br><br>Ar gyfer pob un o'r uchod – edrych ar sefyllfa Cymru a chymharu a gwlad arall. | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – gwers – Achub Fi!<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers COW<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers -Hawliau a Chyfrifoldebau<br>**Diogelwch** – Gwers – Twyll Peryglus<br>**Diogelwch** – Gwers – Cydsynio Rhywiol –'Na yw Na'<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – gwers - Cyfraith Cyffuriau<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – Gwers – Dwbwl Trwbwl |
| **Datblygu TGCh** | • ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu<br>• creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau<br>• defnyddio TGCh mewn modd diogel, | **Ymchwiliad Unigol**<br>**CEB**<br>• Cynhyrchu adroddiad ar 'beth yw ymddygiad gwrth-gymdeithasol?' Cynnal arolwg | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfrifol ac annibynnol, gan gydymffurfio â rheoliadau gwarchod data a gan ddilyn arferion diogel. | ar sefyllfa Cymru gan gynnwys canlyniadau holiaduron a dadansoddiad. Defnyddio adnoddau oddi ar y rhyngrwyd ar gyfer ymchwil pellach i gymharu a gwlad arall.<br>• Defnyddio data cyfrifiad i olrhain newidiadau mewn troseddu yng Nghymru a Lloegr. Cymharu'r ffigurau â gwlad arall.<br>**ABCh**<br>• Cynhyrchu adnodd addysgol ar effeithiau yfed ar bobl ifanc yn eu harddegau. Cymharu sefyllfa Cymru a gwlad arall.<br>**AGG**<br>• Paratoi cyflwyniad ar gyfer disgyblion ysgol gynradd leol ar destun o'ch dewis sydd yn deillio o un o wersi y Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. | |
| **Datblygu Rhif** | • gael mynediad i ddata rhifol o ffynonellau ysgrifenedig a graffigol<br>• dewis o blith amrywiaeth o ddulliau cyflwyno data, gan gynnwys siartiau cylch, graffiau<br>gwasgariad a graffiau llinell, a dehongli'r amrywiaeth honno o ddulliau er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh. | **CEB**<br>• Casglu a dehongli data ar droseddu yn eich ardal.<br>**ABCh**<br>• Cynnal arolwg yn eich ysgol ar agwedd o amrywiaeth. | |
| **Gweithio gydag Eraill** | • weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill i gynllunio a chwblhau ystod o dasgau<br>• myfyrio ar y rolau i'w chwarae mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys | **AGG**<br>• Menter Tîm - gwneud ymchwil ar 'Lle rydym yn teimlo yn ddiogel ac yn anniogel yn yr | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r gymuned** – gwers – Achub Fi!<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers COW |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arweinyddiaeth<br>• ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, a thrafod ymddygiad yn effeithiol mewn cydberthnasau<br>• bod yn bendant ac ymwrthod â dylanwad diangen gan gyfoedion a phobl eraill<br>• datrys gwrthdaro gan gyrraedd atebiad lle mae'r ddwy ochr ar eu hennill<br>• rheoli dicter, rhwystredigaeth a theimladau ymosodol yn effeithiol<br>• ymaddasu i sefyllfaoedd sy'n newid<br>• gwerthuso ystod o ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chyngor a geir ar lefel leol a chenedlaethol a chael mynediad iddynt yn<br>hyderus. | ysgol?' | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers -Hawliau a Chyfrifoldebau<br>**Diogelwch** – Gwers – Cydsynio Rhywiol – 'Na yw Na'<br>**Diogelwch** – Gwers – Twyll Peryglus<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – gwers - Cyfraith Cyffuriau<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – Gwers – Dwbwl Trwbwl |
| **Gwella'ch dysgu eich hun** | Gwella'ch dysgu eich hun<br>Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:<br>• ddefnyddio arddulliau dysgu er mwyn gwella'u dysgu<br>• adolygu dysgu a llunio cynlluniau gweithredu'n effeithiol, gan bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu a thargedau ar gyfer gwella<br>• cymhwyso'u dysgu i sefyllfaoedd anghyfarwydd neu sefyllfaoedd mwy haniaethol<br>• rheoli amser a threfnu'u hunain yn effeithiol er mwyn bodloni terfynau amser<br>• defnyddio ystod o dechnegau adolygu er mwyn atgyfnerthu dysgu<br>• adnabod a rheoli straen<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, e.e. *gweinyddu*<br>*cymorth cyntaf sylfaenol.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dinasyddiaeth Weithgar** | • ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill<br>• gwerthfawrogi amrywiaeth a chyfle cyfartal, a chael eu cythruddo gan anghyfiawnder, ecsbloetio, a gwrthod hawliau dynol<br>• mynd ati i gyfranogi yn ymarferol yn y gymuned<br>**a deall:**<br>• egwyddorion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol<br>• sut y mae systemau gwleidyddol yn gweithio ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol, *e.e. yr Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig*<br>• nodweddion mwyaf amlwg y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru<br>• y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol<br>• pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain<br>• pwysigrwydd cael mynediad at wybodaeth ddiduedd, gan gynnwys y rhyngrwyd, a bod yn barod i herio'r safbwyntiau a ledaenir yn y cyfryngau<br>• sut i herio enghreifftiau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio mewn modd pendant<br>• materion a digwyddiadau cyfoes ar lefel leol a byd-eang, *e.e. digartrefedd ac ymfudo rhyngwladol.* | **Elfen 3 ABCH Dinasyddiaeth Weithredol**<br>• Materion cymdeithasol a moesol yn y gymdeithas gyfoes -e.e. 'Cynhyrchu cyflwyniad am bwysigrwydd cydsynio rhywiol'.<br>• Hawliau cyfreithiol a dynol – 'Ymchwiliad i briodas dan orfod'<br><br>**Elfen 1. CEB Gwleidyddiaeth**<br>• Trafodaeth am 'Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fy ardal'.<br><br>**Elfen 2 CEB Materion Cymdeithasol**<br>• Chwarae rôl er mwyn archwilio agwedd o or-yfed. (Rolau i gynnwys plismon, ynad heddwch, rhiant, rheolwr siop, person yn ei arddegau, aelod seneddol a chynghorydd lleol). | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – gwers – Achub Fi!<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers –COW<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers -Hawliau a Chyfrifoldebau<br>**Diogelwch** – Gwers – Twyll Peryglus<br>**Diogelwch** – Gwers – Cydsynio Rhywiol –'Na yw Na'<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – Gwers – Dwbwl Trwbwl |
| **Iechyd a Lles Emosiynol** | • dderbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach<br>• datblygu agwedd gyfrifol at | **Elfen 1 ABCH: Perthynas gadarnhaol ag eraill**<br><br>• Perthnasau sy'n newid yn yr | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers COW<br>**Diogelwch** – Gwers – Cydsynio Rhywiol –'Na |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gydberthnasau personol<br>**a deall:**<br>• y canlyniadau byrdymor a'r canlyniadau mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol<br>• canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon<br>• yr ystod o agweddau, cydberthnasau ac ymddygiadau rhywiol a geir mewn cymdeithas<br>• pwysigrwydd iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys achosion posibl o ecsbloetio rhywiol<br>• y nodweddion sy'n perthyn i fod yn rhiant effeithiol, ac effaith colled a newid ar gydberthnasau<br>• y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a'r ffyrdd y gellir meithrin lles emosiynol<br>• y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol<br>• sut i gael mynediad i gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn hyderus. | ysgol/coleg a'r teulu<br>• 'Gwerth perthnasau' - astudiwch berthynas ffug mewn opera sebon ac archwiliwch nodweddion perthynas iach a pherthynas nad yw'n iach.<br>• Natur perthnasau o fewn y gymuned ehangach.<br><br>**Elfen 2: ABCH Iechyd a lles emosiynol**<br>• Manteision ffordd iach o fyw<br>• Cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon<br>• Iechyd rhywiol<br>• Ecsploetio rhywiol. | yw Na'<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers -Hawliau a Chyfrifoldebau<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – Gwers – Dwbwl Trwbwl<br>**Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau** – gwers - Cyfraith Cyffuriau<br>**Diogelwch** – Gwers – Twyll Peryglus |
| **Datblygiad Moesol ac Ysbrydol** | • ystyried cwestiynau a materion sy'n ymwneud ag ystyr a phwrpas bywyd<br>**a deall:**<br>• sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar ffordd o fyw a hunaniaeth bersonol<br>• y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol<br>• yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywydau pobl. | **Elfen 3 ABCH Dinasyddiaeth Weithredol**<br>• Agweddau moesol a chymdeithasol yn ein cymdeithas - wedi ei seilio ar wers 'Na yw Na'.<br>• Hawliau cyfreithiol a dynol.? Trafodaeth, cyflwyniad neu draethawd ar wersi 'Achub fi' neu 'Twyll Peryglus'. | **Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – gwers – Achub Fi!<br>**Diogelwch** – Gwers – Cydsynio Rhywiol –'Na yw Na'<br>**Diogelwch** – Gwers – 'Ecsploetio rhywiol – Twyll Peryglus'<br>**Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned** – Gwers -Hawliau a Chyfrifoldebau |

**Adnoddau cefnogol ar gael ar www.schoolbeat.org**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Elfen 4 CEB Materion Diwylliannol**<br>• Ymweld a chyfweld rhywun o dras neu grefydd wahanol i chi neu sydd â chred arbennig. Ysgrifennu erthygl am eich canfyddiadau. | |
| **Paratoi ar gyfer Dysgu Gydol Oes** | • fod yn uchelgeisiol, yn hyblyg a chroesawu cyfleoedd dysgu<br>• bod yn drefnus a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau sy'n gysylltiedig â dysgu<br>**a deall:**<br>• y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt ym maes addysg a hyfforddiant<br>• eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol, a sut i gael gafael ar gyngor ariannol. | | |
| **Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang** | • gydnabod hawliau cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion sylfaenol<br>• bod yn gyfrifol yn bersonol am newid eu ffordd o fyw eu hunain fel ymateb i faterion lleol a byd-eang<br>**a deall:**<br>• cyd-ddibyniaeth systemau economeg byd-eang, ac effeithiau datblygiadau dynol ar systemau naturiol<br>• y tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu<br>cynaliadwy ac anghenion dynol sylfaenol, *e.e. achosion anghydraddoldeb o fewn a rhwng cymdeithasau.* | | |